# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 21 Mawrth 2016 yn Siambr Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**YN BRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A M Jones | Cyngor Gwynedd |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân A Thrysorydd am y tro); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau); S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| | |
|---|---|
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| T A Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

Ar ddechrau'r cyfarfod, talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cyng. Peter Owen o Gyngor Sir Ddinbych a fu farw ar 12 Mawrth. Cafwyd munud o dawelwch gan bawb er cof am y Cyng. Owen.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR 14 RHAGFYR 2015 A 25 IONAWR 2016

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2015 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 Cafodd cofnodion cyfarfod arbennig yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2016 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y ddau gyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3.2 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Rhagfyr 2015 a Mawrth 2016 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 CYNLLUN I LEIHAU RISG A GWELLA 2016-17

6.1 Cyflwynodd y DSBT y Cynllun i Leihau Risg a Gwella 2016-17 er mwyn i'r aelodau ei gymeradwyo cyn ei gyhoeddi.

6.2 Bu'r Aelodau'n rhan o'r gwaith paratoi yn ystod 2015 drwy edrych ar risgiau a ffurfio amcanion, ac ymgynghorwyd ynghylch y rhain yn gyhoeddus a'u defnyddio i osod y gyllideb. Roedd canlyniad yr ymgynghoriad wedi cael ei drafod yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 8 Chwefror 2016 ac roedd yr aelodau wedi cadarnhau'r amcanion gwella ar gyfer 2016-17.

6.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drafft terfynol o'r Cynllun i Leihau Risg a Gwella 2016-17 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd Mawrth 2016.**

7 STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN

7.1 Er mwyn cael cymeradwyaeth yr Aelodau, cyflwynwyd y strategaeth cronfeydd wrth gefn gan y Trysorydd am y Tro, a defnyddir y strategaeth fel sail ar gyfer rheoli cronfeydd defnyddadwy'r Awdurdod Tân ac Achub. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gronfeydd yr Awdurdod, ynghyd â chefndir y modd y caiff cronfeydd eu rheoli'n briodol yng nghyd-destun awdurdodau lleol.

7.2 Fel rhan o'r cynllun ariannol tymor canolig a gymeradwywyd yn y cyfarfod arbennig yn Ionawr 2016, crëwyd strategaeth cronfeydd wrth gefn. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd yr Awdurdod yn dal cronfeydd wrth gefn a sut y bydd adrodd ynghylch cronfeydd wrth gefn yn cael ei ymgorffori yn y datganiad o gyfrifon yn unol â'r codau ymarfer cyfrifyddu sy'n berthnasol i'r Awdurdod; darperir yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Aelodau drwy gydol y flwyddyn. Dyma atgoffa'r Aelodau na ellir defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu diffyg cyffredinol yn y gyllideb refeniw net oherwydd byddai hynny'n sefyllfa ariannol amhosibl i'w chynnal.

7.3 **PENDERFYNWYD**
- **(i) nodi cynnwys yr adroddiad am y cronfeydd sydd gan awdurdodau;**
- **(ii) cymeradwyo'r strategaeth fel sail ar gyfer rheoli cronfeydd defnyddadwy'r Awdurdod Tân ac Achub.**

8 ALLDRO AMCANOL 2015-2016

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd am y Tro yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol a amcangyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16. Nodwyd y bydd tanwariant o £35,298 yn ôl yr arwyddion presennol, ond mae'n bosibl y bydd hynny'n newid cyn 31 Mawrth 2016.

8.2 Esboniodd y Trysorydd am y Tro y penderfynwyd ariannu rhywfaint o'r gwariant cyfalaf ar asedau byrdymor, yn enwedig cerbydau ysgafn a chyfarpar ar gyfer y fflyd, a hynny er mwyn lleihau costau yn y blynyddoedd i ddod. Daw arbedion o ran ad-dalu dyledion a chostau benthyca. Roedd yr Aelodau wedi cytuno eisoes i ddefnyddio unrhyw danwariant i ariannu'r rhaglen gyfalaf fel rhan o'r adroddiad alldro blaenorol, ond gyda swm is.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant bychan a chytuno mewn egwyddor i neilltuo unrhyw danwariannau ychwanegol i ariannu'r rhaglen gyfalaf.**

9 DANGOSYDDION ARIANNOL, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

9.1 Cyflwynwyd y Dangosyddion Ariannol, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2016/17 i'r Aelodau. Esboniodd y Trysorydd am y Tro fod pŵer wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio i adolygu'r dogfennau hyn yn fanylach, a gwnaethpwyd hyn yn nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 25 Ionawr 2016.

9.2 Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi trafod y Repos (*Reverse Repurchase Agreements*) a ychwanegwyd at y rhestr o bartïon i gontract yn dilyn cyngor gan Ymgynghorwyr y Trysorlys er mwyn amrywio'r portffolio buddsoddiadau. Ond mynegodd yr Aelodau bryder am y defnydd o Repos, a byddent yn argymell peidio â'u defnyddio ar hyn o bryd hyd nes y byddai adborth wedi dod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch eu defnyddio. Nid oedd gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pellach ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad a byddent yn argymell bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo. Cadarnhaodd y Cyng. Skelland, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, fod yr adroddiad wedi cael ei drafod gyda chymorth cyflwyniad manwl a roddwyd yn fedrus gan Sandra Forrest.

9.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r pedair elfen allweddol yn yr adroddiad ynghyd â'r argymhellion a oedd ynddo**
**(i) rhestr o ddangosyddion ariannol fel sy'n ofynnol gan God Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;**
**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â benthyciadau byrdymor a hirdymor ar gyfer 2016/17 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys;**
**(iii) y strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â buddsoddi arian yr Awdurdod Tân ac Achub;**
**(iv) Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw.**

10 CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL RHEOLIADAU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 (DYLETSWYDDAU STATUDOL) (CYMRU) 2011

10.1 Roedd yr adroddiad yn ceisio cael cymeradwyaeth yr Aelodau i'r ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol i ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

10.2 Aeth y PSTC Simmons â'r Aelodau drwy'r adroddiad ac esbonio'r broses a ddilynwyd er mwyn creu'r cynllun, gan gynnwys gweithio ar y cyd ar draws y sector yng Ngogledd Cymru. Nodwyd bod y cynllun yn annog pawb i feddwl am wahanol anghenion cymunedau ledled y Gogledd. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i sicrhau parch a thegwch i drigolion, staff a phawb sy'n ymweld ag ardal Gogledd Cymru. Nodwyd y bydd y cynllun yn cael ei hyrwyddo'n fewnol ac yn allanol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y gwaith sy'n mynd ymlaen ym maes cydraddoldeb. Llongyfarchwyd y swyddogion gan y Cyng. Anne Evans am adroddiad mor rhagorol.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w gyhoeddi.**

11 DATGANIAD POLISI CYFLOGAU

11.1 Roedd yr adroddiad yn ceisio cael cymeradwyaeth yr aelodau i'r datganiad polisi cyflogau ar gyfer 2016/17.

11.2 Esboniodd y DBST fod y datganiad yn cynnwys yr un wybodaeth ag a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar gyfer 2015/16 gydag atodiadau wedi'u diweddaru yn nodi matrics cyflogau'r prif swyddogion a'r cyflog a gymeradwywyd gan Gyd-Gyngor yr NJC ar gyfer swyddi diffoddwyr tân amser cyflawn, diffoddwyr tân y system RDS, swyddogion yr ystafell reoli a swyddogion llywodraeth leol.

11.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad polisi cyflogau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, sef 2016/17.**

12 DIRPRWYO PWERAU I'R PRIF SWYDDOG TÂN

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Clerc i ofyn i'r Aelodau gadarnhau'r dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân. Roedd yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Panel Gweithredol ac argymhellwyd bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo.

12.2 Nodwyd bod pwerau swyddogion yn cael ei dirprwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae pwerau cael eu dirprwyo pan fo Aelodau'n cymeradwyo'r cynllun. Roedd y cynllun dirprwyo cyfredol wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru lle bo angen, a hynny gan y Clerc a'r Prif Swyddog Tân.

12.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynllun dirprwyo pwerau.**

13 CYNRYCHIOLI ATAGC AR FYRDDAU GWASANAETHAU LLEOL

13.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn cynnig mai'r Prif Swyddog Tân fyddai'n cynrychioli Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru.

13.2 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill, a bydd yn sefydlu bwrdd statudol o'r enw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymhob ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd pedwar aelod statudol ar y Byrddau, sef yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod tân ac achub a Chyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i bob un o'r pedwar fod yn bresennol mewn cyfarfod i gael cworwm. Esboniodd y PST y byddai ef yn cynrychioli GTAGC yng nghyfnod cychwynnol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, a hynny er mwyn cael dull cyson ledled y Gogledd.

13.3 **PENDERFYNWYD enwebu'r Prif Swyddog Tân i gynrychioli Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru. Roedd yr Aelodau'n cydnabod y byddai hyn yn sicrhau dull cyson gan y swyddog uchaf yn y Gwasanaeth.**

14 ADOLYGU PENODIAD STATUDOL TRYSORYDD A CHYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

14.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am ganfyddiadau'r adolygiad o'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu Trysorydd i'r

Awdurdod Tân ac Achub a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer penodi rhywun i'r swydd statudol honno.

14.2 Drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol, edrychwyd ar drefniadau'r ddau awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru. Ar ôl cymharu'r trefniadau gyda'r rhai sydd yn eu lle ar gyfer ATA Gogledd Cymru, cynigir bod ATA Gogledd Cymru yn parhau â'i drefniadau ei hun gan ddarparu manteision y ddau fodel; sef cael Trysorydd annibynnol ar gontract o 12 diwrnod y flwyddyn ar gost o £7,164 i weithio gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân sy'n gyfrifydd cymwysedig. Nodwyd y bydd panel o Aelodau'r Awdurdod yn rhan o'r broses benodi a gynhelir yn y flwyddyn ariannol newydd.

14.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r trefniadau arfaethedig ar gyfer darparu Trysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub;**

**(ii) cymeradwyo'r broses benodi, fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**

15 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

15.1 Cyflwynodd y Clerc adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r aelodau.

15.2 **PENDERFYNWYD nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.**

16 PENODI AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU

16.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn cynnig y dylai Antony Young gael ei ailbenodi'n aelod annibynnol o Bwyllgor Safonau'r Awdurdod am gyfnod pellach o bedair blynedd. Mae Mr Young wedi gwasanaethu un cyfnod o bedair blynedd ac mae'n gymwys i gael ei ailbenodi am uchafswm o un cyfnod pellach hyd at bedair blynedd. Mae Mr Young wedi dweud ei fod yn barod i gael ei ailbenodi.

16.2 **PENDERFYNWYD ailbenodi Antony Young yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd gan ddod i rym yn Ebrill 2016.**

17 UGAIN MLYNEDD O FODOLAETH ATAGC

17.1 Cafodd yr Aelodau wybod y bydd yr Awdurdod yn nodi ugain mlynedd o fodolaeth yng nghyfarfod blynyddol yr Awdurdod ym Mehefin 2016.

17.2 **PENDERFYNWYD nodi ugain mlynedd o fodolaeth yr Awdurdod ac y bydd ffotograff yn cael ei dynnu i gofio'r achlysur yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mehefin.**

18 COFNODION CYFARFODYDD

18.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd canlynol eu cyflwyno I'w cymeradwyo:

- cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2016
- cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2016
- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2016.

18.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**